ClwydAlyn

**DISGRIFIAD SWYDD**

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd:** | Concierge |
| **Cwmni:** | Tai ClwydAlyn |
| **Adran:** | Byw â Chefnogaeth |
| **Yn atebol i:** | Arweinydd y Tîm, Uwch Swyddog Prosiect a Rheolwr Byw â Chefnogaeth. |
| Yn gyfrifol am: | Greu amgylchedd y gall ein preswylwyr ffynnu ynddo.<br>Bydd y swydd yn gofyn am ddull hyblyg oherwydd ei bod yn cynnwys nosweithiau effro a gweithio ar benwythnosau lle mae'n berthnasol i ofynion gweithredol y gwasanaeth. |
| **Cymwysterau:** | Profiad perthnasol wrth ymdrin â phobl/dyletswyddau blaen tŷ. |
| **Lleoliad:** | Amrywiol leoliadau. Bydd deiliad y swydd yn gweithio yn un lleoliad ond gellir gofyn iddo/iddi weithio yn unrhyw un o gynlluniau Byw â Chefnogaeth eraill ClwydAlyn yn amodol ar ofynion gweithredol. |
| **Dyddiad y Gwerthusiad:** | 2020 |

**Gofyn Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:**

Mae'r rôl hon yn un lle'r aseswyd bod angen gwiriad **Trylwyr gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)** a gwirio'r Rhestr Waharddedig oherwydd bod y gwaith yn cael ei wneud yn uniongyrchol gyda grwpiau bregus neu blant sy'n cael ei ystyried yn weithgaredd a reoleiddir.

Fel Concierge byddwch yn chwarae rhan weithredol wrth greu amgylchedd y gall ein preswylwyr ffynnu ynddo. Byddwch yn rhywun sy'n rhoi gwerth ar gynhwysiant ac yn angerddol am roi cefnogaeth i bobl yn eu cartref ac yn eu cymuned i wella ansawdd eu bywydau.

Ein cenhadaeth yn ClwydAlyn yw "Gyda'n gilydd i drechu tlodi!" ac mae eich swydd chi yn allweddol wrth ein helpu i gael gwared o'r hyn sy'n achosi tlodi yng Ngogledd Cymru trwy wella bywydau a hyrwyddo llesiant ein preswylwyr.

Mae creu perthynas a gwaith tîm yn allweddol i lwyddiant y swydd hon. Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â'r Tîm gan roi cefnogaeth a chyfarwyddyd i'n preswylwyr, yn eu grymuso a'u hannog i wneud dewisiadau cadarnhaol a all arwain at wirfoddoli, prentisiaethau, lleoliadau gwaith, addysg ac yn y pen draw symud ymlaen i fyw bywyd annibynnol a chyfrannu at y gymuned a theimlo'n rhan ohoni.

Mae’r rôl yn heriol ac yn rhoi boddhad – mae gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl yn golygu y bydd angen i chi fod yn ddewr, yn angerddol a hyderus wrth gael sgyrsiau agored a didwyll.

Yn ganolog i waith y Concierge, byddwch yn:

- Darparu gwasanaeth Concierge ac yn fan cyswllt cyntaf i breswylwyr, gan reoli mynediad i’r adeilad ac allan ohono.
- Gallu cofnodi a chasglu gwybodaeth berthnasol ac angenrheidiol.
- Arwain ar ein gwerthoedd gan ymgorffori diogelu ac iechyd a diogelwch ym mhopeth a wnewch.
- Bod a dull hyblyg a rhagweithiol wrth gynorthwyo'r tîm i gefnogi ein preswylwyr.
- Arwain trwy esiampl, gan ddangos ein gwerthoedd, ymddygiadau a’r Cod Ymddygiad.
- Bod yn atebol am eich gweithredoedd eich hun a gweithredoedd y tîm.
- Bod yn agored ac annog sgyrsiau didwyll, bod yn barod i dderbyn a gweithredu ar adborth adeiladol, rhoi gwybodaeth i bobl, a gwneud yr hyn yr ydym wedi dweud y byddwn yn ei wneud bob amser.
- Bod â dull cadarn o ymdrin ag ymddygiad heriol.
- Ymfalchïo yn eich amgylchedd gwaith.
- Trin pawb fel unigolyn.
- Bod yn agored i newid a gweithio gydag asiantaethau partner fel ein bod yn gallu cyflawni rhagor a dod o hyd i atebion i’r heriau yr ydym yn eu hwynebu.
- Credu mewn dangos y gorau mewn pobl, gan eu galluogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain a chyflawni eu potensial llawn.